TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Cyflwyniad i Golur Parti



**Yn gryno**

Bydd y cwrs undydd hwn yn rhoi arweiniad gam wrth gam ar gyfer creu’r colur perffaith ar gyfer parti.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...y rhai sy’n ymddiddori mewn colur

...unrhyw un sy’n awyddus i ddysgu rhagor am y diwydiant ac am gyrsiau eraill

...y rhai sydd eisiau gwella’u technegau coluro presennol er mwyn dilyn y ffasiwn ddiweddaraf

**Cynnwys y cwrs**

Byddwch yn dysgu sut i wneud y canlynol:

Glanhau eich croen trwy ddefnyddio technegau glanhau sylfaenol

Rhoi colur sylfaen, colur aroleuo a cholur cuddio yn y ffordd gywir
Rhoi colur ar y llygaid a'r gwefusau
Glanhau eich brwshis a'ch offer yn y ffordd gywir

Yn ystod y cwrs, byddwch yn rhoi colur ar eich croen eich hun fel ffordd o wella eich technegau – ni fydd yn ofynnol ichi weithio ar bobl eraill yn y dosbarth.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes yna unrhyw ofynion ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn, ond mae'n hanfodol ichi fod â diddordeb brwd yn y pwnc.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal yn ein stiwdio goluro bwrpasol. Mae cyrsiau undydd eraill i'w cael, yn cynnwys:

Cyflwyniad i Baentio Wynebau
Cyflwyniad i Effeithiau Arbennig (toriadau, cleisiau a chlwyfau)
Cyflwyniad i Guddliw Cosmetig
Cyflwyniad i Dechnegau Henna
Cyflwyniad i Driniaethau ar gyfer y Dwylo a'r Ewinedd
Cyflwyniad i Driniaethau ar gyfer y Llygaid
Cyflwyniad i Adweitheg
Cyflwyniad i Dylino'r Corff